Adnabod Bardd



Pethau bach digri bob dydd sy'n mynd â fy sylw yn aml iawn –

pobl sy'n meddwl eu bod yn fawr yn gwneud pethau bychain iawn…

Myrddin ap Dafydd

Lluniau gan Nigel Hughes

ADNABOD BARDD MYRDDIN AP DAFYDD

FFEITHIAU

Dyddiad geni: 25 Gorffennaf, 1956
Magwyd: Llanrwst, Dyffryn Conwy
Cartref presennol: Llwyndyrys, Llŷn
Gwaith: Cyhoeddi llyfrau, bardd teithiol
Hobïau: Rygbi, nofio, teithio, darllen
Hoff awdur pan yn blentyn: T Llew Jones

Pan fyddwn ni'n mynd am wyliau neu ar drip i rywle, byddwn yn mynd â chamera gyda ni fel arfer. Byddwn yn tynnu lluniau i'n hatgoffa o'r pethau a welsom a'r hyn fuon ni'n ei wneud.

Mewn ffordd, tynnu lluniau wnawn ni wrth sgwennu darn o farddoniaeth. Yn aml iawn, byddaf mewn lle arbennig, yn clywed darn o sgwrs neu weld geiriau ar arwydd, neu'n digwydd taro ar ddau air sy'n swnio'n dda gyda'i gilydd. Bryd hynny, byddaf yn stopio'r car neu'n chwilio am gornel dawel neu'n codi o fy ngwely yng nghanol y nos hyd yn oed! Ni fydd fy 'llyfr bach' byth ymhell oddi wrthyf, a byddaf yn sgriblo ychydig o eiriau sydyn ar dudalen newydd.



Yna pan fydd gen i fwy o amser, byddaf yn troi'n ôl at y llyfr bach ac yn meddwl eto am yr ychydig eiriau sydd ar ei dudalennau. Weithiau, pan fydd pethau'n mynd yn hwylus, bydd yr ychydig eiriau'n tyfu ac yn troi yn fy mhen ac yna, ymhen amser, byddaf yn eu datblygu'n ddarn o farddoniaeth.

Pethau bach digri bob dydd sy'n mynd â fy sylw yn aml iawn – pobl sy'n meddwl eu bod yn fawr yn gwneud pethau bychain iawn; pethau rydyn ni'n meddwl eu bod yn broblemau mawr yn troi i fod yn bethau pitw iawn. Mae ambell gerdd yn hwyl i gyd ac ambell un arall yn dawel ac yn ddifrifol. Rydan ni i gyd mewn hwyliau gwahanol ar wahanol adegau.



Mae rhai ffotograffau'n cael eu fframio'n gyhoeddus; mae rhai'n cael eu pasio o law i law ymysg criw o ffrindiau, ac mae rhai'n aros yn ein cypyrddau preifat ni gartref. Mae hynny eto'n debyg i ddarnau o farddoniaeth – byddaf yn cyhoeddi rhai mewn llyfrau, byddaf yn mynd â rhai eraill gyda mi i'w rhannu a'u perfformio mewn ysgolion ac oes, mae rhai yn aros yn y 'llyfr bach' o hyd!

LLYFRAU MYRDDIN AP DAFYDD

Barddoniaeth:

Casgliadau o farddoniaeth a olygwyd gan Myrddin ap Dafydd:
Briwsion yn y Clustiau (1994) £3.25
Mul Bach ar Gefn ei Geffyl (1995) £3.50
Nadolig, Nadolig (1995) £3.50
Y Llew Go Lew (1996) 3.75
Chwarae Plant (1997) £3.75
Ych! Maen nhw'n Neis (1998) £3.75
'Tawelwch!' Taranodd Miss Tomos (1999) £3.75
Brechdana Banana a Gwynt ar ôl Ffa (2000) £3.75
Llinellau Lloerig – casét o gerddi o *Briwsion yn y Clustiau* a *Mul Bach ar Gefn ei Geffyl* (1997) £3.95

Llyfr Caneuon Tecwyn y Tractor (1998) £4.50
Caneuon Tecwyn y Tractor (casét) (1996) £3.49 *Sain*
Wil a'r Wal (1998) £4.50
Stori wreiddiol ar fydr ac odl, yn cyflwyno rhai o hoff hwiangerddi plant Cymru.

Pedwar Pŵdl Pinc a'r Tei yn yr Inc (1999) £6.50
Llawlyfr hwyliog o ymarferiadau i gynorthwyo athrawon i gyflwyno barddoniaeth yn y dosbarth.

Armadilo ar fy Mhen
Sach Gysgu yn Llawn o Greision
Dau lyfr sydd ar y gweill fydd yn ddilyniant i *Pedwar Pŵdl Pinc*.

Cyfres o straeon gwerin:

Straeon ac Arwyr Gwerin yr Alban (1991) £2.95
Straeon ac Arwyr Gwerin Catalunya (1991) £2.95
Straeon ac Arwyr Gwerin Norwy (1992) £2.95
Straeon ac Arwyr Gwerin Llydaw (1992) £2.95
Straeon ac Arwyr Gwerin Iwerddon (1992) £3.50
Straeon ac Arwyr Gwerin yr Alpau (1993) £3.50
Straeon ac Arwyr Gwerin Groeg (1993) £3.50

Cyhoeddwyd y llyfrau i gyd gan wasg Myrddin ap Dafydd, sef
Gwasg Carreg Gwalch.



Cynhyrchwyd gan GYNGOR LLYFRAU CYMRU Mai 2000